Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



CANLLAW GWEITHREDU

Popeth sy' angen ichi ei wybod i ddangos bod eich mudiad neu'ch cymuned yn Caru Pryfed Peillio.

CYNNWYS

CROESO I GANLLAW GWEITHREDU CARU GWENYN 4

AI DIM OND GWENYN SY'N CAEL HELP? 5

BETH YW'R HANES? 6

PAM HELPU PRYFED PEILLIO? 6

CARU GWENYN 7

ASTUDIAETH ACHOS – TYDDEWI 8

RHEOLI ADNODDAU NATURIOL YN GYNALIADWY 9

MYND ATI I GARU GWENYN 9

CARU GWENYN – Y PEDAIR THEMA: 11

Thema 1 – Bwyd – gwneud yn siŵr fod bwyd ar gyfer pryfed peillio yn eich ardal 11

Thema 2 – Cartref pum seren – darparu lleoedd i bryfed peillio fyw ynddyn nhw 15

Thema 3 – Rhydd o blaladdwyr (yn cynnwys pryfleiddiaid a chwynladdwyr) – peidio â defnyddio cemegau sy'n gwneud drwg i bryfed peillio 17

Thema 4 – Hwyl – cael y gymuned i gymryd rhan 19

CHWILIO AM WENYN UNIG 21

CEISIADAU A CHEISIADAU ADNEWYDDU 23

ADNODDAU A CHYMORTH 24

ADNODDAU I'CH HELPU CHI 24

© Hawlfraint y Goron 2019
WG38169
ISBN digidol 978-1-83933-082-7
ISBN argraffu 978-1-83933-081-0

“MAE PRYFED PEILLIO’N RHYFEDDOL. MAEN NHW’N RHAN ENFAWR O GYLCH BYWYD, A HEBDDYNT, FYDD LLAWER O’R BLODAU, FFRWYTHAU A LLYSIAU DDIM YN CAEL EU PEILLIO A BYDDAI LLAWER O BETHAU AR Y DDAEAR DDIM YN CAEL BWYD.”

Finn Collister (9 oed)

CROESO I GANLLAW GWEITHREDU CARU GWENYN

Mae gwenyn, glöynnod byw a phryfed peillio eraill mewn trafferth am nifer o resymau.

Ond y newyddion da yw ein bod ni'n gallu helpu.

A dyna'n union beth mae ein cynllun newydd **Caru Gwenyn** yn ceisio ei wneud!

Mae'r fenter hon ar gyfer cymunedau a sefydliadau cymunedol.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Er eu bod mor fach, mae gwenyn yn hanfodol ar gyfer amgylchedd ac economi iach. Rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw i beillio llawer o'n ffrwythau a llysiau – byddai'n costio £1.8 biliwn i ffermwyr Prydain beillio'u cnydau heb wenyn.

Rydym yn credu mai Caru Gwenyn yw'r cynllun cenedlaethol cyntaf o'i fath a'i amcan pennaf yw gwneud Cymru'n wlad sy'n caru pryfed peillio.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

NID gwenyn mêl yw'r unig bryfed peillio ym Mhrydain. Mae pryfed peillio gwyllt yn cynnwys cacwn a gwenyn eraill, glöynnod byw a gwyfynod, clêr ac amryw o bryfed eraill fel chwilod, gwenyn meirch a thripsod. Mae'r siart isod yn cynrychioli ymweliadau gan bryfed peillio a astudiwyd mewn un safle. Mae hyd yn oed yr astudiaeth gyfyngedig hon yn dangos bod yna amrywiaeth mawr o bryfed peillio, ac mai dim ond rhan fach iawn o'r darlun yw gwenyn mêl. Mae angen lawer o beillwyr gyda gwahanol siâp cegau i beillio gwahanol siapau o flodau.



Siart Cylch a adeiladwyd gan ddefnyddio data o gofnodi trawslun o weledigaethau pryfed genwair mewn gweirglodd hynafol yn Shelfranger, Norfolk gan Lynn Dicks yn 1999.
Dicks, Corbet & Pywell (2002) compartmentalization in plant-insect flower visitor webs.
J Animal Ecology 71, 32-43.

AI DIM OND GWENYN SY'N CAEL HELP?

Nage – rydym am helpu pob pryfedyn sy'n peillio.

Mae pryfed peillio'n cynnwys gwenyn mêl, cacwn a gwenyn unig, rhai picwn/gwenyn meirch, glöynnod byw, gwyfynod a chlêr hofran, a rhai chwilod a chlêr/pryfaid.

Pe bai gwenyn, gwyfynod neu löynnod byw'n gallu siarad, beth fydden nhw'n gofyn inni amdano? Fwy na thebyg, bydden nhw am inni warchod a gwella'r mannau lle mae eu bwyd yn tyfu a'r mannau lle maen nhw'n byw ac yn cysgodi, i beidio â defnyddio cemegau niweidiol ac inni ddweud wrth gymaint o bobl â phosib am y problemau maen nhw'n eu hwynebu – er mwyn i fwy o bobl allu helpu.

Dyna pam rydyn ni'n gofyn ichi ymuno â ni i weithredu pedair prif thema – BWYD, CARTREF PUM SEREN (CYNEFIN), DIM PLALADDWYR a HWYL – a chreu gwlad o gymunedau, ysgolion, busnesau, prifysgolion, colegau, cyrff cyhoeddus, addoldai a sefydliadau eraill sy'n Caru Pryfed Peillio.

Felly, os hoffech fyw mewn Tref neu Gymuned sy'n Caru Gwenyn, neu weithio i Fusnes sy'n Caru Gwenyn neu astudio mewn Ysgol, Prifysgol neu Goleg sy'n Caru Gwenyn, er enghraifft, yna darllenwch ragor i ddysgu mwy am y cynllun difyr hwn.

Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i bryfed peillio Cymru trwy weithio at y nod o fod y wlad Caru Pryfed Peillio gynta yn y byd!

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Collwyd 97% o ddolydd glaswelltir traddodiadol yr iseldir yng Nghymru a Lloegr rhwng 1930-87. Er bod cyfradd y dirywiad wedi arafu, mae'r glaswelltiroedd lled-naturiol sy'n weddill yn parhau i gael eu colli.

credyd ffoto: Liam Olds

BETH YW'R HANES?

Mae llawer o grwpiau ac unigolion wedi bod yn gweithio i warchod rhywogaethau, cynefinoedd, natur ac ecosystemau yng Nghymru ers blynyddoedd mawr.

Yn 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu i warchod pryfed peillio yng Nghymru, o'r enw'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio[1] a gafodd ei ddiweddaru yn 2018[2].

Cafodd Tasglu o fudiadau ac unigolion ei sefydlu i ymchwilio i ffyrdd o roi'r cynllun gweithredu ar waith.

PAM HELPU PRYFED PEILLIO?

» Mae nifer y pryfed peillio wedi cwympo'n ddifrifol iawn dros y tri deg mlynedd ddiwethaf. Mae tystiolaeth bod nifer gwenyn unig, cacwn a rhai clêr hofran, yn enwedig, wedi dirywio.

» Mae angen pryfed i beillio cnydau masnachol, ffrwythau meddal, perllannau, cnydau garddwriaethol, a blodau gwyllt a gardd.

» Mae amgylchedd naturiol amrywiol a deniadol yn dda i bryfed peillio, ac i bobl hefyd.

» Mae mannau gwyrdd naturiol a chyswllt â natur yn hanfodol i'n lles.

» Mae dwndwr y gwenyn yn creu ymdeimlad o le ac mae'n un o synau'r haf.

» Mae llawer o bryfed peillio, yn enwedig clêr a gwyfynod, yn fwyd hanfodol i adar. Nid dwndwr y gwenyn yn unig rydyn ni am ei glywed unwaith eto yn ein cymunedau, ond hefyd cri gwenoliaid duon a gwenoliaid y bondo yn hela'u tamaid uwch toeon ein tai.

[1] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-pryfed-peillio.pdf
[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-pryfed-peillio-adolygiad-a-chamau-gweithredu-yn-y-dyfodol.pdf

CARU GWENYN

Mae cynllun Caru Gwenyn yn ffordd hwyliog ac arloesol o ddysgu cymunedau a sefydliadau ym mhob rhan o Gymru am bryfed peillio a chynefinoedd, ac o greu atebion lleol i helpu gwenyn a phryfed peillio eraill i ffynnu. Bydd gwella'r amgylchedd naturiol yn gwneud y llefydd hyn yn fwy deniadol i bobl leol ac ymwelwyr, ac yn hwb i les y gymuned.

Er mai Caru Gwenyn yw enw'r cynllun, rydyn ni am i bobl helpu pob pryfedyn sy'n peillio, nid gwenyn yn unig.

Mae Caru Gwenyn wedi'i rannu'n bedair thema. Mae'r tair thema gyntaf yn adlewyrchu beth sydd ei angen ar bryfed peillio i ffynnu; amgylchedd sy'n llawn bwyd amrywiol a maethlon, dŵr a mannau nythu, heb lygredd na phlaladdwyr. Mae'r bedwaredd thema'n canolbwyntio ar gael y gymuned i gyfrannu a helpu.

Y pedair thema yw:

1. **Bwyd** gwneud yn siŵr bod bwyd ar gyfer pryfed peillio yn eich ardal.
2. **Cartref pum seren** darparu lleoedd i bryfed peillio fyw ynddyn nhw.
3. **Dim plaladdwyr (yn cynnwys pryfleiddiaid a chwynladdwyr)** addewid i beidio â defnyddio cemegau sy'n gwneud drwg i bryfed peillio.
4. **Hwyl** cael y gymuned i gymryd rhan ac esbonio wrth bobl pam eich bod yn helpu pryfed peillio.

Fel grŵp neu sefydliad cymunedol, neu gorff cyhoeddus sy'n cynnwys pobl leol, neu fusnes â chwsmeriaid lleol, chi sydd yn y sefyllfa orau i ddweud pa gamau fyddai fwyaf priodol i'w cymryd yn eich ardal. Gallai'r hyn y dylai ysgol yng Nghasnewydd ei wneud, er enghraifft, fod yn wahanol iawn i'r hyn y dylai pentref ar Ynys Môn neu fusnes yn y Drenewydd ei wneud.

Rydyn ni'n cynnig syniadau am bethau i'w gwneud, ar sail ein profiad yn y gorffennol, ond croeso ichi greu'ch cynllun

gweithredu'ch hun sy'n ystyried y posibiliadau a'r cyfleoedd yn eich cymuned neu'ch sefydliad chi.

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnig syniadau ar gyfer gweithredu gyda dolenni i wybodaeth bellach.

Mae yna astudiaethau achos i'ch ysbrydoli ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[3].

Ond y peth pwysicaf i'w gofio yw'ch bod yn cael hwyl a'ch bod yn cael cymaint o bobl â phosib i Garu Gwenyn. Cofiwch, nid dros wenyn yn unig y byddwch yn gweithio, ond dros bob pryfedyn peillio – mae angen helpu clêr hofran, glöynnod byw a gwyfynod hefyd.

credyd ffoto: Jan Miller at www.7wells.co.uk

ASTUDIAETH ACHOS – TYDDEWI

Mae menter Caru Gwenyn Tyddewi yn annog busnesau, trigolion a grwpiau cymunedol i helpu i frwydro yn erbyn dirywiad pryfed peillio drwy roi bwyd a chynefin iddynt a lleihau'r defnydd o blaladdwyr. Mae erwau o ddolydd blodau gwyllt newydd wedi cael eu hau, mae planhigion sy'n addas i bryfed peillio yn blodeuo y tu allan i fusnesau a gerddi ac mae byrddau addysg dwyieithog yn hysbysu ymwelwyr am yr amrywiaeth o bryfed peillio sydd gennym ym Mhrydain a'u pwysigrwydd. Unwaith y flwyddyn, mae penwythnos Gerddi Agored Tyddewi yn gweld perchnogion tai yn agor eu gerddi cyfeillgar i fywyd gwyllt i'r cyhoedd hefyd. Mae menter Caru Gwenyn Tyddewi, sy'n cael ei chydgysylltu gan The Bug Farm, wedi helpu'r ddinas i ddod yn noddfa i bryfed peillio ac yn hafan i bobl sydd eisiau dysgu mwy amdanynt. Un o brif atyniadau'r ddinas sy'n Caru Gwenyn yw Helfa Beillwyr Tyddewi, llwybr rhyngweithiol ac addysgol sy'n cysylltu busnesau sy'n croesawu twristiaid ar draws y penrhyn. Mae pob busnes yn arddangos pryfedyn peillio penodol gyda gwaith celf o Gymru a gwybodaeth wrth ochr cynefin y pryfedyn peillio. I gael rhagor o wybodaeth, neu i lawrlwytho'r canllaw a'r map i chwilotwyr, ewch i dudalen we Helfa Beillwyr Tyddewi[4].

[3] https://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio

[4] https://www.thebugfarm.co.uk/pollinator-trail/

RHEOLI ADNODDAU NATURIOL YN GYNALIADWY

Mae Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn nodi ein tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru. Datblygwyd y rhain i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu a'r strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb' sy'n sail i'w chyflawni. Mae'r blaenoriaethau'n ymgorffori cyfraniad yr Adnoddau Naturiol sydd gennym ar draws yr holl Nodau Llesiant hefyd, ac yn mabwysiadu dull gweithredu integredig a hirdymor yn unol â'n ffyrdd newydd o weithio.

Dyma'r tair blaenoriaeth:

» Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur

» Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon

» Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar leoedd.

Cynlluniwyd y blaenoriaethau hyn i weithio gyda'i gilydd i'n helpu i fynd i'r afael â heriau a gwireddu'r cyfleoedd y mae ein hadnoddau naturiol yn eu darparu, gan gynnwys gweithredu i gefnogi pryfed peillio.

Byddwn yn sicrhau bod ein polisïau'n cyd-fynd â'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau hyn, ac yn defnyddio'r fframwaith o'n deddfwriaeth yma yng Nghymru i ysgogi camau gweithredu.

MYND ATI I GARU GWENYN

Beth sydd angen ei wneud?

Y syniad yw ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gael mwy o bobl Cymru i wybod mwy am y problemau sy'n wynebu pryfed peillio ac i gymryd camau i'w diogelu nhw a'u cynefinoedd a'u bwyd. Trwy weithio gyda'n gilydd, y gobaith yw ychwanegu'r teitl Gwlad Caru Pryfed Peillio gynta'r byd at deitl Cymru fel Gwlad Masnach Deg gynta'r byd.

Ein syniad yw bod y grwpiau sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn dewis **o leiaf un syniad** gweithredu **ar gyfer pob un o'r pedair thema** ar y tudalennau canlynol. Rydyn ni wedi cynnig syniadau i'ch helpu ond os oes gennych syniadau eraill o fewn y themâu hyn sy'n addas i'ch ardal neu i'ch sefydliad chi, gorau oll.

Y peth pwysicaf yw bod pawb yn gweithio ar o leiaf un syniad o dan bob thema (BWYD, CARTREF PUM SEREN (CYNEFIN), DIM PLALADDWYR A HWYL).

Cynllun gweithredu posibl:

» Ymunwch â phobl eraill sydd â'r un bryd â chi yn eich cymuned neu'ch sefydliad neu'ch busnes i lunio cynllun gweithredu ar gyfer eich prosiect.

» Cysylltwch â'ch Hyrwyddwr Gwenyn lleol ar ddechrau'ch prosiect fel y gall eich helpu i ddewis eich syniadau o dan y Thema Bwyd, y Thema Cartref Pum Seren, y Thema Dim Plaladdwyr a'r Thema Hwyl. (Dewiswch syniadau sy'n addas i'ch ardal neu'ch sefydliad chi, sy'n hwyl ac yn ymarferol. Bydd hynny'n gwneud pethau'n haws ichi, yn enwedig os ydych yn grŵp newydd.)

» Os ydych am gymryd rhan, rhowch wybod inni trwy lenwi'r ffurflen gais ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

» Hysbysebwch yn eich ardal i roi gwybod i bobl beth rydych yn ei wneud a'u gwahodd i ymuno â'ch prosiect.

» Siaradwch am eich prosiect ar y cyfryngau cymdeithasol – dangoswch ffotograffau i ddangos y gwahaniaeth rydych wedi'i wneud.

» Dywedwch sut mae pethau'n mynd o dan y pedair thema. Gallwch ddefnyddio Cyfrifiadau wedi'u Hamseru o Bryfed Blodau, a ddatblygwyd gan y Cynllun Monitro Pryfed Peillio[5] fel dull o fonitro pryfed peillio. Cofiwch gynnal eich arolwg pan fydd yr amodau tywydd yn addas ac anfonwch eich data at iRecord hyd yn oed os nad ydych wedi gweld pryfed yn ymweld â'ch planhigion targed.

» Defnyddiwch adnoddau Polli:Nation[6] i helpu'ch ysgol i gynnal arolwg. Cofiwch lanlwytho'ch cofnodion i wefan OPAL.

» Trefnwch ddathliad i ddangos yn swyddogol eich bod yn Dref neu Gymuned neu Grŵp Cymunedol sy'n **Caru Gwenyn**, yn Fusnes sy'n **Caru Gwenyn**, yn Ysgol, Prifysgol neu Goleg sy'n **Caru Gwenyn**, yn Gorff Cyhoeddus neu fath arall o sefydliad neu grŵp sy'n **Caru Gwenyn**.

» Rhowch wybod i bawb beth rydych yn ei wneud. Cyhoeddwch a rhannwch eich llwyddiannau drwy roi unrhyw luniau a phrofiadau ar dudalen Facebook Caru Gwenyn Cymru ac ar Twitter gan ddefnyddio'r hashnod #CaruGwenyn.

[5] https://www.ceh.ac.uk/our-science/projects/pollinator-monitoring
[6] http://polli-nation.co.uk/hafan/

credyd ffoto: Jan Miller at www.7wells.co.uk

CARU GWENYN – Y PEDAIR THEMA

THEMA 1 – BWYD – GWNEUD YN SIŴR BOD BWYD AR GYFER PRYFED PEILLIO YN EICH ARDAL

PAM MAE HYN YN BWYSIG?

Beth gawsoch chi i frecwast bore 'ma? Jam ar dost? Ffrwythau ffres? Ffrwythau sych yn eich muesli neu domatos wedi'u grilio? Neu efallai sudd ffrwythau neu goffi?

Gwenyn ddaeth â'r cyfan i chi. Mae'n hawdd meddwl mai'r oll mae gwenyn yn ei wneud yw cynhyrchu mêl. Ond mae'n bwysig sylweddoli ein bod yn dibynnu arnyn nhw am lawer o'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta, gan gynnwys y rhan fwyaf o ffrwythau a llysiau.

Mae gwenyn yn hanfodol bwysig i'n heconomi – hebddyn nhw, byddai'n costio £1.8 biliwn y flwyddyn i ffermwyr Prydain beillio ein cnydau. Mewn byd heb wenyn, byddai bwyd yn costio llawer mwy i'w gynhyrchu a byddai'n ergyd drom i'r economi[7].

[7] https://www.foe.co.uk/sites/default/files/downloads/20-things-you-need-know-about-bees-booklet-47366.pdf

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae pryfed peillio'n byw ar baill a neithdar gan eu casglu oddi ar flodau o bob math; mae angen amrywiaeth o lystyfiant arnynt e.e. perthi (gwrychoedd), prysgwydd a phorfa hir i gysgodi a nythu, a thyllau yn y pridd ac mewn boncyffion coed i aeafu. Mae anghenion larfâu pryfed peillio'n wahanol yn aml i anghenion pryfed llawndwf. Er mwyn gallu cynnal amrywiaeth o bryfed peillio, bydd angen ffynhonnell neithdar o ddechrau'r gwanwyn tan ddiwedd yr hydref.

Syniadau gweithredu – dewiswch un o'r rhain neu meddyliwch am syniad eich hun a dweud wrthym amdano

» Nodi ardaloedd sydd eisoes yn darparu ffynhonnell fwyd dda iawn ar gyfer pryfed peillio, er enghraifft; gwrychoedd llawn blodau, clytiau o flodau gwyllt ar dir gwastraff, ardaloedd o fieri neu iorwg a dolydd blodeuol. Gweithio gyda thirfeddianwyr i ddiogelu'r rhain neu eu rheoli'n fwy sensitif.

» Darparu mannau sy'n dda am fwyd i bryfed peillio – hau hadau a chymryd toriadau o rai o'r planhigion ar y rhestr o blanhigion sy'n dda ar gyfer pryfed peillio ar wefan Bioamrywiaeth Cymru[8], sy'n cynnwys planhigion porthi ar gyfer glöynnod byw, gwyfynod, clêr hofran, cacwn a gwenyn unig llawndwf (sef mwyafrif llethol pryfed peillio Cymru). Mae'r rhestr yn cynnwys planhigion sy'n dda fel bwyd i larfau gloÿnnod byw a rhai gwyfynod hefyd.

» Cofio bod lindys glöynnod byw a gwyfynod angen planhigion gwahanol i larfâu gwenyn. Plannu rhywogaethau brodorol addas sy'n cyflenwi bwyd addas i'w lindys.

» Gadael mannau gwyllt lle gall planhigion bwyd ar gyfer larfâu fel danadl dyfu.

» Yn wahanol i wenyn, mae glöynnod byw a gwyfynod llawndwf angen neithdar ond dydyn nhw ddim yn bwyta paill. Plannu planhigion sy'n arogli yn y nos i ddenu gwyfynod.

» Creu dolydd blodau gwyllt neu blannu blodau, llwyni a choed gardd sy'n llawn paill a neithdar i wenyn a phryfed peillio eraill

[8] https://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio

e.e. mewn parciau, ar ymyl y ffordd, mewn ardaloedd dinesig, ar feysydd chwarae ac ar dir o gwmpas swyddfeydd a depos. Gwiriwch i weld a yw'ch safle yn dod o fewn B-Line[9] ac ychwanegwch eich manylion at fap rhyngweithiol Buglife.

» Hau cymysgeddau blodau gwyllt brodorol. Fodd bynnag, peidiwch â hau mewn ardaloedd sydd eisoes yn wyllt yn naturiol. Gallai hadau gael eu gwastraffu gan y byddant yn cael trafferth tyfu a chystadlu â'r glaswellt sydd yno'n barod. Gallai cyflwyno rhywogaethau nad ydynt yn frodorol i'r ardal wyllt amharu ar y cydbwysedd naturiol a'i niweidio. Peidiwch byth â phlannu rhywogaethau goresgynnol estron mewn ardaloedd sy'n naturiol wyllt neu ardaloedd lle gallant ddianc i'r gwyllt.

» Torri porfa'n llai aml – Ceisiwch ddarparu porfa hir y gall lindys ei fwyta a chysgodi ynddo, a blodau y gall pryfed peillio llawndwf fwydo arnynt. Os yw ymddangosiad yn bwysig, rhowch gynnig ar dorri stribed un metr o led o amgylch ymyl dolydd bywyd gwyllt i bwysleisio bod yr ardal yn cael ei rheoli yn hytrach na'i hesgeuluso. Er mwyn galluogi'r glöynnod byw i orffen eu cylch bywyd, chwiliwch am ardal o borfa, ei rhannu'n ddwy a thorri'r naill hanner a'r llall bob yn ail flwyddyn fel bod lloches ddiogel ar gyfer lindys bob amser. Os oes angen i chi dorri, gwneud hynny ddwywaith neu dair yn unig a hynny mor hwyr â phosibl. Gadewch rywfaint o'r borfa'n hirach; gan dorri dim ond unwaith y flwyddyn yn ddelfrydol os oes modd. Cliriwch y borfa a dorrwyd rhag mygu planhigion tyner. Gadewch i blanhigion flodeuo a hadu.

» Gweithio gyda thrigolion lleol a'u hannog i dyfu blodau a phlanhigion sy'n ddeniadol i bryfed peillio – y nod yw cael cymaint o flodau llawn neithdar dros gymaint o fisoedd â phosib, gan gynnwys dechrau'r gwanwyn a diwedd yr haf a'r hydref. Mae'n bwysig cael caniatâd y tirfeddiannwr.

» Mewn gerddi, cynghori pobl i blannu blodau agored eu siâp fel ei bod yn hawdd i bryfed gael gafael ar y neithdar a'r paill.

» Plannu mwy o fathau hen ffasiwn gan eu bod nhw'n tueddu i gynhyrchu mwy o neithdar na'r ffurfiau modern a ffurfiau hybrid, a dewis mathau sydd â blodau sengl.

[9] https://www.buglife.org.uk/b-lines-hub/wales

» Rheoli gwrychoedd, ffosydd a bencydd ar gylchdro.
Gall gwrychoedd, ffosydd a chloddiau fod yn hafan i bryfed peillio. Nid yn unig maen nhw'n ffynonellau bwyd hanfodol ond maent yn safleoedd dodwy wyau, trwmgysgu a nythu hefyd. Mae rheoli'r ardaloedd hyn mewn ffordd sensitif yn helpu i gysylltu lleiniau mwy o gynefin a chynnal poblogaethau iach. Mae Bumblebee Conservation[10] wedi paratoi taflen ffeithiau ar sut i reoli perthi, ffosydd a chloddiau.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae gloyn byw 'Glas y Celyn' wedi'i enwi felly gan mai **dim ond** Celyn yn y gwanwyn neu lorwg yn yr hydref all y lindys ei fwyta. Dyma pam mae planhigion gwyllt brodorol mor bwysig i löynnod byw; yn aml, dim ond un planhigyn penodol y gall eu lindys ei fwyta.

Mae Glas y Celyn yn treulio'r gaeaf fel ŵy ar lwyni Celyn hefyd. Felly, mae torri gwrychoedd ar gylchdro (peidio torri gwrychoedd bob blwyddyn neu dorri naill ochr y gwrych a'r llall am yn ail) yn bwysig hefyd.

credyd ffoto: Jan Miller at www.7wells.co.uk

[10] https://www.bumblebeeconservation.org/wp-content/uploads/2017/08/BBCT_Land_Factsheet_6_Managing_hedges_edges.pdf

THEMA 2 – CARTREF PUM SEREN – DARPARU LLEOEDD I BRYFED PEILLIO FYW YNDDYN NHW

PAM MAE HYN YN BWYSIG?

Ers 1900, mae'r DU wedi colli 20 o rywogaethau o wenyn, ac mae 35 pellach yn cael eu hystyried o dan fygythiad o ddiflannu. Yn ôl Adroddiad Buglife ar y Gwenyn dan Fygythiad yng Nghymru[11], a gyhoeddwyd yn 2018, mae saith rhywogaeth o wenyn wedi'u colli o Gymru, mae pum rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu ar hyn o bryd ac mae cyrhaeddiad llawer o rai eraill wedi lleihau'n sylweddol. Does yr un ohonyn nhw'n cael eu hamddiffyn gan y gyfraith. Ar draws Ewrop, mae un o bob deg rhywogaeth o wenyn gwyllt yn wynebu difodiant.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae'r dirywiad yn nifer ac iechyd gwenyn a phryfed peillio eraill yn destun pryder yn y DU a gweddill y byd. Rhwng 1985 a 2005, gwelwyd 23% o ostyngiad yn nifer y gwenyn mêl yng Nghymru. Mae glöynnod byw, clêr hofran a sawl rhywogaeth o wyfynod yn prinhau hefyd. Mae arwynebedd dolydd blodau gwyllt a chynefinoedd lled-naturiol pwysig eraill wedi lleihau hefyd.

SYNIADAU GWEITHREDU – DEWISWCH UN O'R RHAIN NEU MEDDYLIWCH AM SYNIAD EICH HUN A DWEUD WRTHYM AMDANO

» Creu cynefinoedd addas i glêr hofran ddodwy eu hwyau ynddyn nhw, a denu pryfed peillio i'ch gardd trwy greu lagŵn ar gyfer clêr hofran[12] neu greu pyllau dŵr neu fannau gwlyb.

» Creu torlannau gwenyn[13] ac osgoi dinistrio cynefinoedd sy'n cael eu defnyddio gan wenyn unig a chacwn i nythu ynddyn nhw.

» Chwilio â diogelu neu ddarparu lleiniau o borfa hir, coed gwag, tyllau mawr a bach mewn waliau lle gall gwenyn nythu.

» Chwilio am leiniau o borfa sydd wedi'i thorri'n fyr, argloddiau neu gloddiau pridd sydd ar hyn o bryd yn cynnal nythfeydd o wenyn sy'n nythu ar y ddaear.

» Chwilio am hen waliau lle ceir ar hyn o bryd nythfeydd o wenyn unig mewn hen fortar mâl, a gofalu nad yw'r waliau'n cael eu hailadeiladu na'u hailbwyntio heb wneud trefniadau ar gyfer y gwenyn unig.

» Datblygu a chynnal rhimynnau o borfa dwmpathog (a dorrir bob 2-3 blynedd rhag iddynt droi'n brysg) fel mannau nythu ar gyfer cacwn sy'n nythu ar y ddaear.

[11] https://www.buglife.org.uk/wales-threatened-bee-report-0
[12] https://www.thebuzzclub.uk/hoverfly-lagoons
[13] https://www.buglife.org.uk/sites/default/files/Bee%20bank%20welsh.pdf

» Plannu dryslwyn o helyg deilgrwn (*Salix caprea*). Mae'r dail yn fwyd i lindys ac mae'r blodau'n ffynhonnell gynnar o baill i freninesau cacwn.

» Plannu perth o lwyni brodorol a'i rheoli ar sail cylchdro[14].

» Rhoi cychod gwenyn ar eich tir (edrychwch ar wefan Cymdeithas Gwenynwyr Cymru (WBKA)[15] i weld beth sydd ynghlwm wrth hyn, a dolenni i Gymdeithasau Gwenynwyr ledled Cymru.

» Codwch[16] a chynhaliwch o leiaf un gwesty gwenyn/pryfed mewn lle addas (yn llygad yr haul, yn wynebu'r de neu'r de-ddwyrain, metr o'r llawr, heb dyfiant yn cau'r fynedfa, a tho cryf i gadw glaw draw). Gofalwch am y gwesty o flwyddyn i flwyddyn, gan lanhau ac adnewyddu tiwbiau nythu a deunyddiau'n ôl y gofyn. Mae gwesty pryfed yn lle i wenyn unig nythu. Mae'n ffordd dda o ddysgu am wenyn unig am eu bod nhw mor ddiddorol.

credyd ffoto: © Laura Curry

[14] https://www.bumblebeeconservation.org/wp-content/uploads/2017/08/BBCT_Land_Factsheet_6_Managing_hedges_edges.pdf

[15] http://www.cymdeithasgwenynwyrcymru.co.uk/

[16] http://www.foxleas.com/make-a-bee-hotel.asp

THEMA 3 – RHYDD O BLALADDWYR (YN CYNNWYS PRYFLEIDDIAID A CHWYNLADDWYR) – PEIDIO Â DEFNYDDIO CEMEGAU SY'N GWNEUD DRWG I BRYFED PEILLIO.

PAM MAE HYN YN BWYSIG?

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae mwy a mwy o bryder am blaladdwyr o'r enw neonicotinoidau. Mae'n nhw'n blaladdwyr systemig sy'n golygu fod y planhigyn yn ei godi ac yn ei gludo i'r holl feinweoedd (dail, blodau, gwreiddiau a choesynnau, yn ogystal â'r paill a'r neithdar).

Mae ymchwil ddiweddar yn dangos bod tri math o blaladdwr neonicotinoid (clothianidin, imidacloprid a thiamethocsam) a all fod yn cael effaith niweidiol ar iechyd gwenyn. Yn sgil pryderon o'r fath, penderfynodd y Comisiwn Ewropeaidd wahardd y defnydd o'r tri neonicotinoid yn yr awyr agored yn llwyr a chyfyngu eu defnydd i dai gwydr o fis Rhagfyr 2018 ymlaen.

Mae sawl ffordd o reoli plâu, chwyn a chlefydau heb ddefnyddio plaladdwyr. Gall mabwysiadu dull Rheoli Plâu Integredig (IPM) eich helpu i wneud hyn. Mae dull IPM yn cynnig cyfle i ddileu'r defnydd o blaladdwyr neu ei leihau'n sylweddol. Mae'n gwneud hyn drwy ddefnyddio casgliad o dechnegau amgen, megis:

» Dewis planhigion sy'n gweddu'n dda i amodau lleol a, lle bo'n bosibl, sydd ag ymwrthedd naturiol i blâu a chlefydau.

» Gofalu am eich planhigion yn dda megis draenio addas, cylchdroi cnydau, taenu gwellt, trefniadau tocio sydd wedi'u cynllunio'n dda a chaniatáu digon o le ar gyfer twf.

» Gall cael gwared ar chwyn, plâu a dail heintiedig fod yn ddigon i gael rheolaeth dderbyniol mewn gerddi a mannau cymunedol.

» Plannu ar y cyd (tyfu planhigion gyda'i gilydd sydd o fudd ac o gymorth i'w gilydd). Er enghraifft: gall melyn Mair atal pryfed gleision, dywedir fod saets yn cadw gwlithod draw, a bydd capanau cornicyll yn denu pryfed gleision a lindys oddi wrth fresych a llysiau eraill. Mae llawer mwy o blanhigion yn gwneud pethau tebyg.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae agweddau at blâu yn bwysig. I dyfwyr cartref, mae lefel isel o ddifrod gan blâu neu glefydau yn dderbyniol fel arfer ac felly nid oes angen defnyddio plaladdwyr.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio pryfladdwyr (plaladdwyr a ddefnyddir i reoli pryfed) ar eu holl fannau agored cyhoeddus fel parciau a mannau hamdden, a dim ond defnyddio chwynladdwyr (plaladdwyr sy'n cael eu defnyddio i reoli planhigion) sy'n cael eu defnyddio, ond hynny'n ddarbodus a dim ond pan nad oes dewis ymarferol arall.

credyd ffoto: Liam Olds

Syniadau gweithredu – dewiswch un o'r rhain neu meddyliwch am syniad eich hun a dweud wrthym amdano

» Gweithio gyda thrigolion lleol i'w hannog i beidio â defnyddio plaladdwyr a allai wneud niwed i bryfed peillio, neu ddefnyddio llai ohonynt.

» Gweithio gyda thrigolion lleol i'w hannog i beidio â defnyddio chwynladdwyr sy'n lladd "chwyn" a all fod yn fwyd ac yn gartref i bryfed peillio neu i ddefnyddio llai ohonynt.

» Annog eich Cyngor Cymuned neu Awdurdod Lleol i wneud mwy o blaid pryfed peillio gan gynnwys peidio â defnyddio cemegau sy'n niweidiol i bryfed peillio neu ddefnyddio llai ohonynt ar dir a reolir ganddynt.

» Gweithio gyda pherchenogion rhandiroedd lleol i'w hannog i helpu i greu a rheoli cynefinoedd i bryfed peillio ar eu rhandiroedd ac i ddefnyddio llai o blaladdwyr.

» Codi ymwybyddiaeth yn fwy cyffredinol am effeithiau rhai plaladdwyr ar bryfed peillio.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae gwenyn a'u cynnyrch wedi bod yn bwysig yng Nghymru ers amser maith. Mae sôn am wenyn a'u harferion a'u cynnyrch yng Nghyfreithiau Hywel Dda. Yn yr oesoedd canol, roedd medd yn bwysig iawn. Diod feddwol yw medd wedi'i gwneud o fêl, ac yn ôl cyfreithiau Cymru byddai disgwyl i drefi dalu rhan o'u treth i'r Brenin mewn medd. Mae'r geiriau 'mêl, 'medd' a 'meddwi' yn tarddu o'r un gwreiddyn.

Roedd parodrwydd noddwyr i rannu'u medd yn fesur o'u haelioni yn ôl yr hen feirdd. Yn ôl cerdd y Gododdin a gyfansoddwyd yn y 6ed ganrif, am iddynt feddwi ar fedd, collodd Cymry'r "Hen Ogledd" (gogledd Lloegr/de'r Alban heddiw) frwydr fawr Catraeth (sef Catterick fwy na thebyg) yn erbyn y goresgynwyr Eingl-Sacsonaidd. Mae'r elfen 'gwenyn' yn rhan o enw llawer o dai a ffermydd yng Nghymru.

THEMA 4 – HWYL – CAEL Y GYMUNED I GYMRYD RHAN

PAM MAE HYN YN BWYSIG?

Os yw lle'n dda i bryfed peillio, mae'n dda i bobl hefyd! Wedi'r cyfan, mae gwenyn, glöynnod byw a blodau gwyllt yn ein hatgoffa am ddyddiau hirfelyn tesog yr haf. Trwy ennyn diddordeb cymaint o bobl â phosib, yn enwedig pobl ifanc, byddwch yn eu helpu i ddysgu caru natur ac yn meithrin yr awydd ynddyn nhw i ddysgu mwy ac i ddiogelu'u hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Y peth gorau y gallwch ei wneud yw cael cymaint o bobl â phosib i ymuno â'ch prosiect Caru Gwenyn. Bydd hynny'n sicrhau bod eich prosiect yn adlewyrchu anghenion lleol, bod cefnogaeth leol iddo, bydd yn ffordd i gael syniadau newydd a chlywed safbwyntiau gwahanol a gall fod yn ffordd i gael hyd i bartneriaid newydd.

Ac...yn bwysicach na dim... mae'n HWYL!

SYNIADAU GWEITHREDU – DEWISWCH UN O'R RHAIN NEU MEDDYLIWCH AM SYNIAD EICH HUN A DWEUD WRTHYM AMDANO

» Gweithio gydag o leiaf un ysgol, meithrinfa, grŵp ieuenctid neu grŵp cymunedol arall yn lleol i gynnal 'diwrnod pryfed peillio' blynyddol lle gall plant wisgo i fyny, dysgu am bryfed peillio, gwneud crefftau a phob math o bethau eraill.

» Trefnu neu fynd i o leiaf un digwyddiad y flwyddyn i hyrwyddo gweithgareddau i helpu pryfed peillio (gallai fod yn stondin mewn ffair leol neu ffair ysgol, ffilm neu ddarlith gyda'r nos neu hyd yn oed rhywbeth fel sesiwn blasu mêl i staff yn eich busnes).

» Cymryd rhan yn Wythnos Natur Cymru[17] i dynnu sylw at y gwaith rydych chi'n ei wneud i helpu pryfed peillio.

» Cymryd rhan yn Noson Genedlaethol y Gwyfynod[18] – y dathliad blynyddol o gofnodi gwyfynod ledled Prydain ac Iwerddon i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o wyfynod.

» Cymerwch ran yn y Cyfrifiad Glöynnod Byw Mawr[19] – arolwg cenedlaethol sy'n ceisio ein helpu i asesu iechyd ein hamgylchedd. Fe'i lansiwyd yn 2010 ac yn fuan iawn mae wedi dod yn arolwg mwya'r byd o löynnod byw. Cymerodd dros 100,000 o bobl ran yn 2018, gan gynnal 97,133 o gyfrifiadau.

» Creu adran yr 'ardd orau ar gyfer pryfed peillio' yng nghystadleuaeth 'Tref/Pentref yn ei Blodau' leol a/neu'r ardd orau ar gyfer pryfed peillio yn y gweithle, busnes neu ysgol.

» Gweithio gyda grwpiau eraill yn eich cymuned ar brosiectau er lles pryfed peillio.

» Annog garddwyr, plant ac ysgolion i chwilio am un o'r gwenyn unig cyffredin a chyflwyno unrhyw gofnodion – gweler y blychau isod am syniadau.

» Dweud wrth y wasg leol ac eraill, drwy'r cyfryngau cymdeithasol o bosib, am yr hyn rydych yn ei wneud a pham.

[17] https://www.biodiversitywales.org.uk/Wythnos-Natur-Cymru
[18] http://mothnight.info/home
[19] https://www.bigbutterflycount.org/

» Dysgu gan eraill. Gallwch wahodd neu ymweld â grŵp **Caru Gwenyn** arall i rannu'r hyn rydych chi'n ei wneud. Mynd i ddigwyddiadau sefydliadau cadwraeth fel Buglife[20] a Bumblebee Conservation[21].

» Tynnu sylw cwsmeriaid, cleientiaid neu bartneriaid at yr hyn rydych yn ei wneud.

» Dod yn Hyrwyddwr **Caru Gwenyn** – i ysbrydoli sefydliadau neu gymunedau eraill i gefnogi'r cynllun Caru Gwenyn.

www.bwars.com/content/colletes-hederae-mapping-project

www.bwars.com/content/anthidium-manicatum-wool-carder-bee-survey

CHWILIO AM WENYN UNIG

Yn yr haf, chwiliwch am **Gardwenyn y Gwlân**. Mae hwyl fawr i'w gael yn ei gwylio'n patrolio'i thiriogaeth o gwmpas blodau gan erlid pryfed eraill. Mae'n hawdd cael hyd iddi am ei bod yn ymweld â'r blodyn Clust yr Oen bob amser. Mae prinder cofnodion amdani yng Nghymru, felly bydd ysgolion, wrth gyflwyno'u cofnodion, yn cyfrannu at wyddoniaeth.

Yn yr hydref, chwiliwch am **Wenynen yr Iorwg**. Mae'n hawdd ei hadnabod gan mai dim ond ar flodau'r iorwg y bydd yn bwydo, ar adeg pan na welwch wenyn unig eraill. Mae'n ddiddorol am ei bod yn dechrau ymgartrefu yng Nghymru ar hyd Dyffryn Hafren. Gallwch ddilyn ei hynt ar draws Cymru trwy edrych ar y map dosbarthiad ar-lein ar wefan BWARS.Eto, byddwch yn cyfrannu at ein gwybodaeth wyddonol am y wenynen hon.

[20] https://www.buglife.org.uk/
[21] https://www.bumblebeeconservation.org/



> MAE DYSGU PLENTYN I BEIDIO Â SATHRU AR LINDYS YN YR UN MOR WERTHFAWR I'R PLENTYN AG I'R LINDYSYN.
>
> Bradley Millar

credyd ffoto: © J Brentnall

CEISIADAU A CHEISIADAU ADNEWYDDU

Gwneud cais llwyddiannus:

Gofynnwch am gyngor a chymorth drwy gysylltu â'ch Hyrwyddwr Caru Gwenyn lleol (mae'r rhestr o gysylltiadau ar gael yn y tab Caru Gwenyn ar wefan Bioamrywiaeth Cymru[22]).

Er mwyn cael bod yn gymuned neu sefydliad Caru Gwenyn, bydd angen ichi ddangos sut rydych wedi ymrwymo i weithredu neu sut rydych eisoes wedi cymryd camau llwyddiannus gyda phedair thema Caru Gwenyn.

Cadwch gofnod o bopeth rydych yn ei wneud, eich gweithgareddau a'r sylw rydych wedi'i gael ar y cyfryngau.

Pan fyddwch chi'n barod ac yn hyderus y gallwch chi fodloni gofynion pob thema:

1. **Lawrlwythwch y ffurflen gais** o wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
2. **Llenwch y ffurflen gais** gan nodi manylion o dan y pedair thema. Byddwch yn hwyluso'r broses trwy lenwi'r ffurflen yn electronig.
3. **Anfonwch y ffurflen gais gyflawn mewn e-bost** ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol fel ffotograffau a sylw yn y wasg at gwarchodnatur@llyw.cymru

Os na allwch ei chyflwyno'n electronig, postiwch y ffurflen at;

Caru Gwenyn
Y Gangen Bioamrywiaeth
a Chadwraeth Natur
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Bydd Caru Gwenyn yn cadarnhau bod eich cais wedi cyrraedd ac yn gofyn am ragor o wybodaeth os oes angen.

Bydd Hyrwyddwr Caru Gwenyn yn asesu'ch cais ac yn rhoi ei ymateb ichi.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus – dathlwch!
Bydd eich grŵp yn cael tystysgrif a hunaniaeth/logo Caru Gwenyn.
Byddwch yn gallu defnyddio'ch hunaniaeth/logo Caru Gwenyn ar eich holl ddeunyddiau.

[22] https://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio

Os caiff eich cais ei wrthod, defnyddiwch y sylwadau yn yr ymateb i ddatblygu'r gweithgareddau a chyflwyno cais arall pan fyddwch chi'n gallu cynnig cais gwell.

CADW STATWS CARU GWENYN

Bydd yn rhaid i bob cynllun **Caru Gwenyn** geisio cadw ei statws trwy gyflwyno cais adnewyddu flwyddyn ar ôl ennill y statws.

Gofalwch fod gennych gofnod eich bod yn gweithio at wireddu'r amcanion a chadwch fanylion unrhyw ddigwyddiadau rydych yn eu cynnal, hanes eich gwaith lleol, ffotograffau, sylw gan y cyfryngau ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Ar eich cais adnewyddu, bydd un o'n Hyrwyddwyr **Caru Gwenyn** yn gweithio gyda chi i roi cyngor ichi.

ADNODDAU A CHYMORTH

Os oes gennych gwestiynau cyffredinol am Caru Gwenyn neu os hoffech wneud cais neu gais adnewyddu, cysylltwch â: gwarchodnatur@llyw.cymru

Caru Gwenyn
Y Gangen Bioamrywiaeth
a Chadwraeth Natur
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

Adnoddau ar gyfer **Caru Gwenyn** a'r newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf

www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio

ADNODDAU I'CH HELPU CHI

GWYBODAETH GYFFREDINOL AM BRYFED PEILLIO

» Bumblebee Conservation Trust http://bumblebeeconservation.org/

» www.bumblebeeconservation.org/bees-needs/information-sheets/

» Cyfeillion y Ddaear – Bee Cause
https://friendsoftheearth.uk/bees

» Caru Gwenyn Sir Fynwy
http://beefriendly monmouthshire.org/

» Bees for development
www.beesfordevelopment.org/

GARDDIO AR GYFER PRYFED PEILLIO

» Rhestr o blanhigion ar gyfer peillwyr a phecyn garddio ar gyfer bywyd gwyllt
www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio

» Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol – Perffaith ar gyfer Pryfed Peillio
www.rhs.org.uk/science/conservation-biodiversity/wildlife/encourage-wildlife-to-your-garden/plants-for-pollinators

» Buglife
www.buglife.org.uk/activities-for-you/wildlife-gardening

» Bumblebee Conservation Trust-Gardening for Bumblebees
www.bumblebeeconservation.org/gardeningadvice/

» Ymddiriedolaethau Natur – Garddio er lles Bywyd Gwyllt
www.wildlifetrusts.org/gardening

» Fforwm Garddio Bywyd Gwyllt
www.wlgf.org/

» Cynllun 'Grey to Green' y Gymdeithas Arddwriaethol Genedlaethol
www.rhs.org.uk/science/gardening-in-a-changing-world/greening-grey-britain

» RSPB – Gwneud eich gardd yn gartref i natur:
ww2.rspb.org.uk/makeahomeforwildlife/givenatureahomeinyourgarden/

» Butterfly Conservation – cyngor ar arddio:
https://butterfly-conservation.org/how-you-can-help/get-involved/gardening

» Cyngor garddio Plantlife
www.plantlife.org.uk/wildflower_garden

CADW GWENYN

» Cymdeithas Gwenynwyr Cymru
www.wbka.com/

» National Bee Unit (Beebase)
www.nationalbeeunit.com/

CYFRIF PRYFED PEILLIO

» Noson Genedlaethol y Gwyfynod
www.mothnight.info

» Y Cyfrifiad Glöynnod Byw Mawr
www.bigbutterflycount.org/

» Cynllun Monitro Pryfed Peillio (PoMS)
www.ceh.ac.uk/our-science/projects/pollinator-monitoring

» Blooms for Bees
www.bloomsforbees.co.uk/

» Arolwg Polli:Nation
www.polli-nation.co.uk/

MENTRAU ERAILL

» Grow Wild
www.growwilduk.com/cy

» Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
https://garddfotaneg.cymru/gwyddoniaeth/achub-peillwyr/

ASTUDIAETHAU ACHOS

» Astudiaethau achos – ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio